Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Polisi Diogelu Data

Dyddiad:	Hydref 2026
Swyddog Cyfrifol:	Swyddog Diogelu Data
Ymgynghorai/ymgyngoreion:	Tîm Rheoli Corfforaethol; Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth; Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth
Cymeradwywyd gan:	Cabinet
Amlder adolygu:	Bob 2 flynedd
Dyddiad adolygu nesaf:	Hydref 2028

1. Amcan y Polisi

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw Data Personol am ei ddinasyddion, gweithwyr, cyflenwyr, ymgeiswyr am swyddi ac unigolion eraill at amrywiaeth o ddibenion busnes, gan gynnwys ei dasg gyhoeddus fel awdurdod lleol, ei statws fel cyflogwr lleol mawr ac fel comisiynydd gwasanaethau.

1.2 Bydd cydymffurfio â'r Polisi hwn yn cynorthwyo'r Cyngor i fodloni ei ofynion o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae methiant i weithredu'r Polisi hwn yn effeithiol yn creu risgiau i'r Cyngor o beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth, cosbau ariannol sylweddol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, trallod neu niwed i unigolion yr ydym yn prosesu eu Data Personol, niwed i enw da y Cyngor a niwed i allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau effeithiol a dibynadwy.

2. Cwmpas a Diffiniadau

2.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob gweithiwr, Aelod Etholedig, ac unigolyn/sefydliad arall sy'n gweithredu ar ran y Cyngor sydd â mynediad at Ddata Personol y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano. Mae gweithdrefnau manwl yn cyd-fynd â'r Polisi hwn i gyfarwyddo prosesu Data Personol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Egwyddorion Diogelu Data yn y ddeddfwriaeth.

2.2 Diffinnir 'Data Personol' fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol adnabyddus neu adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, e.e. enw, cyfeiriad, dyddiad geni, data lleoliad, dynodwr ar-lein.

Mae Categorïau Arbennig o Ddata Personol yn destun amddiffyniadau ychwanegol, ac yn cynnwys:

- Honiadau, achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol
- Iechyd neu gyflwr meddwl neu gorfforol
- Barn wleidyddol
- Tras hil neu dras ethnig
- Crefydd neu gredoau eraill o natur debyg
- Bywyd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Aelodaeth o undeb llafur
- Geneteg
- Biometreg (pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion adnabod)

2.3 ‘Rheolydd y Data’ yw’r person neu sefydliad sy’n pennu'r dibenion a’r ffordd y mae unrhyw Ddata Personol yn cael ei brosesu neu y bwriedir ei brosesu. At ddibenion y Polisi hwn, y Cyngor yw Rheolydd cofrestredig y Data.

2.4 'Prosesydd Data' yw unrhyw drydydd parti sy'n Prosesu'r data ar ran Rheolydd y Data.

2.5 'Gwrthrych y Data' yw unigolyn byw sy'n wrthrych y Data Personol.

2.6 Ystyr 'Prosesu' yw unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol drwy gydol cylch bywyd y wybodaeth, o gasglu a chreu'r wybodaeth bersonol, i'w defnyddio, ei hagor i fod ar gael i eraill pan fo angen, ei storio, a'i gwaredu pan nad oes ei hangen mwyach.

2.7 Mae 'Hysbysiad Preifatrwydd' yn amlinellu gwybodaeth i wrthrychau'r data am sut a pham mae eu Data Personol yn cael ei Brosesu (gan gynnwys hunaniaeth y Swyddog Diogelu Data, a sut a pham y bydd y Cyngor yn defnyddio, prosesu, datgelu, diogelu a chadw'r Data Personol hwnnw). Mae'r rhain wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu darparu i unigolion pan fydd Data Personol yn cael ei gasglu.

3. Egwyddorion diogelu data

3.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl waith prosesu Data Personol y mae'n ei wneud yn cyd-fynd â'r chwe egwyddor ganlynol:

Rhaid i Ddata Personol gael ei brosesu'n gyfreithiol, yn deg ac mewn modd tryloyw

Dim ond pan fo gan y Cyngor sail gyfreithiol ar gyfer cyflawni'r gweithgaredd y dylid prosesu Data Personol. Mae GDPR y DU yn nodi chwe sail gyfreithiol ar gyfer Prosesu fel yr amlinellir yn adran 4.

Mae Hysbysiadau Preifatrwydd ar waith ar gyfer gwasanaethau sy'n prosesu Data Personol, gan gynnwys Categorïau Arbennig o Ddata Personol. Mae'r hysbysiadau hyn yn ei gwneud yn glir pa ddata sy'n cael ei Brosesu ac yn nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer Prosesu'r Data Personol hwn. Mae'r rhain wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu darparu i unigolion pan fydd Data Personol yn cael ei gasglu.

- **Dim ond at ddibenion penodol, amlwg a chyfreithlon y ceir casglu Data Personol**

Wrth gasglu Data Personol, bydd y Cyngor yn sicrhau bod Gwrthrychau'r Data yn derbyn Hysbysiadau Preifatrwydd priodol i'w hysbysu sut y bydd eu data yn cael ei ddefnyddio ac yn nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer y Prosesu.

- **Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, yn berthnasol, heb fod yn ormodol**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod data a brosesir yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gymesur at y diben y'i cafwyd ar ei gyfer.

- **Rhaid i Ddata Personol fod yn gywir a rhaid ei ddiweddaru'n ôl yr angen**

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn i'r Cyngor gywiro Data Personol sy'n ymwneud â nhw sy'n anghywir yn eu tyb nhw a bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus gan y Swyddog Diogelu Data (gweler adrannau 7 ac 8 am ragor o wybodaeth). Os nad yw'r Cyngor yn cytuno bod y Data Personol a gedwir yn anghywir, bydd cofnod yn dal i gael ei gadw yn cofnodi'r ffaith ei fod yn ddadleuol.

- **Rhaid peidio â chadw Data Personol am fwy o amser nag sydd angen**

Mae gan y Cyngor Bolisi Cadw Data gyda chyfnodau cadw safonol lle bo'n bosibl, yn unol â rhwymedigaethau dogfennau. Mae'r Cyngor yn ystyried yn ofalus am ba hyd y mae'n cadw Data Personol.

- **Rhaid i Ddata Personol gael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol**

Rhaid i'r Cyngor gadw Data Personol yn ddiogel rhag cael ei golli neu ei gamddefnyddio ac mae ganddo bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff gadw Data Personol yn ddiogel. Pan fo'r Cyngor yn defnyddio Proseswyr Data ar ei ran, mae angen gweithredu trefniadau diogelwch ychwanegol mewn Cytundebau Prosesu Data gyda'r sefydliadau hynny i ddiogelu diogelwch Data Personol. Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant a gohebiaeth i staff sy'n rhoi pwyslais ar ddiogelwch data.

3.2 Mae egwyddor gyffredinol arall o atebolrwydd sy'n golygu, yn ogystal â chydymffurfio â'r chwe egwyddor, fod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio gael ei weld yn cydymffurfio â nhw yn gyhoeddus a gallu dangos cydymffurfiaeth os caiff ei arolygu gan gyrff rheoleiddio. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 8.

4. Amodau ar gyfer Prosesu

4.1 Er mwyn iddo fod yn gyfreithlon ac yn briodol i'r Cyngor brosesu Data Personol, rhaid bodloni o leiaf un o'r amodau canlynol a amlinellir isod. Nid oes unrhyw sail unigol yn 'well' nac yn bwysicach na'r lleill - bydd y sail sydd fwyaf priodol yn dibynnu ar y diben a'r berthynas â'r unigolyn:

- Mae Gwrthrych y Data wedi rhoi cydsyniad
- Mae angen Prosesu oherwydd contract
- Angenrheidiol oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol
- Diogelu buddiannau hanfodol Gwrthrych y Data neu berson arall
- Angenrheidiol i gyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r Rheolydd

4.2 Mae amddiffyniad cyfreithiol cryfach ar gyfer gwybodaeth fwy sensitif (a elwir "Data Categori Arbennig"), megis cefndir ethnig, barn wleidyddol, iechyd, credoau crefyddol, cofnodion troseddol. Bydd y Cyngor yn Prosesu Data Categori Arbennig dim ond os yw un o'r canlynol yn berthnasol yn ogystal â:

- Caniatâd penodol Gwrthrych y Data
- Angenrheidiol ar gyfer rhwymedigaethau o dan gyfraith cyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu amddiffyniad cymdeithasol neu gydgytundeb
- Amddiffyn buddiannau hanfodol Gwrthrych y Data neu berson arall pan fo Gwrthrych y Data yn methu rhoi caniatâd
- Prosesu a gynhelir gan gorff nid-er-elw ac ar yr amod na ddatgelir i drydydd parti heb ganiatâd
- Data Personol a gyhoeddwyd gan Wrthrych y Data
- Angenrheidiol i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol neu pan fo llysoedd yn gweithredu eu swyddogaeth farnwrol

- Angenrheidiol am resymau budd sylweddol y cyhoedd ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth
- Angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd
- Angenrheidiol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil gwyddonol a hanesyddol neu ddibenion ystadegol
- Angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol

5. Amodau Atodol ar gyfer Prosesu

5.1 Mae Adran 10 ac Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018 yn nodi'r eithriadau o'r gwaharddiadau yn GDPR y DU sy'n ymwneud â Phrosesu Data Personol Categori Arbennig a data euogfarnau troseddol.

5.2 Mae'r Cyngor yn prosesu Data Personol Categori Arbennig o dan yr amodau canlynol yn Atodlen 1, Rhan 2 o'r DPA, ar sail budd sylweddol y cyhoedd hefyd:

- Dibenion statudol a llywodraethol
- Cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal
- Atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon
- Atal twyll
- Gwasanaethau cwnsela, cyngor neu gymorth
- Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl
- Dibenion yswiriant
- Pensiynau galwedigaethol
- Cynrychiolwyr etholedig yn ymateb i geisiadau
- Datgelu i gynrychiolwyr etholedig

5.3 Ynghyd ag amodau eraill yn Atodlen 1, Rhan 3 o'r Ddeddf mae'r Cyngor yn ymestyn yr amod dibenion statudol a llywodraethol a geir yn Rhan 2 i brosesu data euogfarnau troseddol hefyd. Rhaid i'r Cyngor fodloni'r prawf budd sylweddol y cyhoedd er mwyn prosesu'r data hwn. Ystyrir dan yr holl amgylchiadau fod budd y cyhoedd mewn prosesu data euogfarnau troseddol yn sylweddol fwy na budd y cyhoedd mewn cadw preifatrwydd Gwrthrych y Data. Bydd hyn yn wir pan fo'r prosesu yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn diogelu'r cyhoedd, plant ac oedolion agored i niwed.

6. Hawliau Unigolyn

6.1 Bydd y Cyngor yn dangos atebolrwydd wrth gadw at hawliau unigolion a nodir yn y gyfraith diogelu data, gan gynnwys eu hawl:

- I gael gwybod am y wybodaeth a gedwir gan y Cyngor
- I gael mynediad at y Data Personol y mae'r Cyngor yn ei gadw amdanynt drwy wneud Cais Gwrthrych am Wybodaeth (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf)
- I ofyn am gywiro Data Personol anghywir neu Ddata Personol anghyflawn

- I ddileu eu Data Personol mewn amgylchiadau penodol
- I gyfyngu ar brosesu eu Data Personol mewn amgylchiadau penodol
- I gludadwyedd data mewn rhai amgylchiadau
- I wrthwynebu penderfyniadau sy'n seiliedig ar wneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd yn unig
- I gael eu hysbysu am doriad diogelwch Data Personol
- I dynnu'n ôl caniatâd i brosesu eu Data Personol ar unrhyw adeg (dim ond pan mai caniatâd yw'r sail gyfreithiol dros brosesu)
- I wneud cwyn i'r Cyngor am sut mae eu Data Personol wedi'i drin

6.2 Dylid uwchgyfeirio pob un o'r ceisiadau uchod (ar lafar neu'n ysgrifenedig) i Swyddog Diogelu Data'r Cyngor cyn gynted â phosibl gan fod terfyn amser ar gyfer ymateb i'r ceisiadau hyn.

6.3 Mae Deddf Data Defnydd a Mynediad 2025 yn diwygio GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 ond nid yw'n eu disodli. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gael proses ar gyfer rheoli cwynion diogelu data ac, o ran Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, i wneud chwiliadau rhesymol a chymesur pan fydd unigolyn yn gofyn am fynediad at eu Data Personol. Bydd unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â sut y mae'r Cyngor wedi prosesu eu Data Personol, cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, neu arfer hawliau gwrthrych data yn cael ei rheoli yn unol â Pholisi Cwynion Corfforaethol y Cyngor. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl unigolyn i godi pryderon yn uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg.

7. Cwynion a thoriadau diogelwch data

7.1 Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i osgoi toriadau diogelwch Data Personol ac yn arbennig colli Data Personol. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ymateb yn briodol yn unol â'r deddfau diogelu data pan fydd toriad diogelwch data. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn asesu pob toriad diogelwch a adroddwyd ac yn penderfynu p'un a yw'n bodloni'r trothwy ar gyfer hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth a/neu unigolion yr effeithir arnynt, gan ystyried gofynion GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Pan fo angen hysbysu, bydd y Swyddog Diogelu Data yn cydlynu ac yn goruchwylio'r broses adrodd.

7.2 Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno adrodd pryderon sy'n ymwneud â'u Data Personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data:

Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data
foi@bridgend.gov.uk

7.3 Gall methu â chydymffurfio â'r gyfraith ar ddiogelu data arwain at y canlynol:

- Canlyniadau difrifol i unigolion y mae'r data'n ymwneud â hwy, gan gynnwys embaras, trallod, colled ariannol
- Niwed parhaol i enw da'r Cyngor a cholli hyder yng ngallu'r Cyngor i reoli gwybodaeth yn iawn
- Cosbau ariannol a hawliadau iawndal
- Camau gorfodi gan y Comisiynydd Gwybodaeth

- Atebolrwydd personol am droseddau troseddol penodol ac am dorri Cod Ymddygiad y Swyddog neu God Ymddygiad yr Aelodau

7.4 Mae Cod Ymarfer ar gyfer Toriadau Diogelwch Data wedi'i ddatblygu i gynorthwyo'r Cyngor wrth ymateb yn effeithiol i doriadau diogelwch Data Personol.

8. Atebolrwydd a monitro

8.1 Mae Swyddog Diogelu Data'r Cyngor yn goruchwylio'r gwaith o reoli Data Personol ymhob rhan o'r Cyngor. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gweithio gyda'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth. Bydd y swyddi hyn yn cael eu cefnogi gan Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor sy'n cynnwys rhwydwaith o gynrychiolwyr o bob Gwasanaeth yn y Cyngor. Nid yw bodolaeth y Bwrdd hwn yn negyddu mewn unrhyw ffordd nac yn lleihau atebolrwydd unigol a chyfrifoldeb yr holl staff ac Aelodau Etholedig am ddiogelu'r Data Personol y mae ganddynt fynediad ato.

8.2 Bydd y Cyngor yn cynnal Asesiadau Effaith Preifatrwydd Data (offeryn ar gyfer nodi ac asesu risgiau preifatrwydd trwy gydol cylch bywyd datblygu rhaglen neu system sy'n cynnwys Data Personol) yn gynnar pryd bynnag y cynigir defnyddio Data Personol ac yn enwedig ar gyfer prosiectau newydd neu ddefnyddio technolegau newydd. Wrth benderfynu p'un a oes angen asesiad, bydd swyddogion naill ai'n penderfynu hyn eu hunain, dan arweiniad mecanweithiau sgrinio mewnol neu gallant ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data. Efallai y byddant dan fandad gan y Swyddog Diogelu Data i gynnal yr asesiad.

8.3 Fel Rheolydd y Data, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofnod o weithgareddau prosesu sy'n cwmpasu'r holl brosesu Data Personol a wneir gan y Cyngor. Mae pob Gwasanaeth a'r Swyddog Diogelu Data yn cadw cofnod o weithgareddau Prosesu Data Personol, ac mae'r ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei rheoli yn cael ei gwerthuso'n rheolaidd gan ddefnyddio Asesiadau Effaith Preifatrwydd Data lle bo hynny'n briodol.

8.4 Mae Hysbysiadau Preifatrwydd clir ac amserol yn cael eu cyfathrebu sy'n galluogi Gwrthrych y Data i ddeall sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei Ddata Personol. Mae'r rhain i gyd wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

8.5 Caiff Data Personol ei rannu yn unol â phrotocolau cymeradwy, megis Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, Cytundebau Datgelu Data a Chytundebau Prosesu Data.

8.6 Bydd cadw a gwaredu Data Personol yn dilyn Polisi Cadw Data y Cyngor yn fanwl. Ni fydd y Cyngor yn cadw Data Personol am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y cafodd ei gasglu ar eu cyfer, oni bai bod cyfnod cadw hirach yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu at ddibenion busnes cyfreithlon. Bydd data personol yn cael ei waredu mewn modd sy'n atal mynediad, datgelu, adfer neu ailadeiladu heb awdurdod. Gall hyn gynnwys dinistrio cofnodion papur yn ddiogel a dileu cofnodion electronig yn barhaol.

9. Hyfforddiant a Chyfrifoldebau Staff ac Aelodau Etholedig

9.1 Dylai pob swyddog sydd â chyfrifoldebau am gasglu, cyrchu neu brosesu Data Personol gydymffurfio â darpariaethau'r cyfreithiau diogelu data perthnasol.

9.2 Mae pob swyddog ac Aelod Etholedig yn gyfrifol ac yn atebol am ddilyn gweithdrefnau sefydledig a chadw eu hyfforddiant a'u dealltwriaeth yn gyfredol o ran diogelu data.

9.3 Mae'r Cyngor wedi datblygu hyfforddiant ar-lein ar ddiogelu data. Mae'n orfodol ar gyfer Aelodau Etholedig a phob swyddog sy'n prosesu Data Personol.

10. Statws y Polisi hwn / polisïau ac adnoddau cysylltiedig

10.1 Nid yw'r Polisi hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth ar gyfer staff ond mae'n amod cyflogaeth y bydd staff yn cydymffurfio â rheolau a pholisïau'r Cyngor.

10.2 Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â pholisïau a dogfennau TGCh, y Cod Ymarfer ar gyfer Toriadau Diogelwch Data a'r Polisi Cadw Data.

10.3 Canllawiau ac adnoddau ychwanegol:

- I'r cyhoedd — gweler tudalen we y Cyngor ar ddiogelu data
- I swyddogion — y tudalennau diogelu data ar y fewnrwyd

10.4 Mae'r Polisi hwn wedi'i lywio gan ganllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar weithredu Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU sydd i'w gweld ar eu gwefan.

10.5 Bydd y Cyngor yn adolygu'r Polisi hwn yn barhaus, gan ei ddiwygio pan fo angen a'i adolygu'n ffurfiol ar gyfnodau o ddim mwy na dwy flynedd.

10.6 Y Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod goruchwylio yn y DU sy'n gyfrifol am fonitro cymhwyso GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 er mwyn diogelu hawliau a rhyddid sylfaenol personau naturiol sy'n ymwneud â Phrosesu. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu gwybodaeth a chyngor, ac mae eu gwefan yn cynnwys ffynonellau defnyddiol o ddogfennau arfer gorau a chanllawiau ymarferwyr: www.ico.org.uk.

10.7 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gallu cynnal asesiad neu archwiliad o drefn y Cyngor ar gyfer prosesu Data Personol er mwyn penderfynu p'un a yw'r prosesu hwnnw'n dilyn arfer da.